OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1814 (Cy.144) (C.75)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 5 Gorffennaf 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 270(4)(a), (5)(c), (5)(f) a (7) o Ddeddf Tai 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Tai 2004; ac

ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 14 Gorffennaf 2005.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn

2. Mae darpariaethau canlynol Deddf 2004 yn dod i rym ar y dyddiad cychwyn —

(a) adran 191;

(b) adran 227;

(c) adran 228;

(ch) adran 265(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau o Atodlen 15 i Ddeddf 2004 a bennir ym mharagraff (dd) isod;

(d) Atodlen 12; ac

(dd) yn Atodlen 15 —

(i) paragraff 1;

(ii) paragraff 7(1), (2), (3)(a), (3)(c), (4)(a) a 5;

(iii) paragraff 35;

(iv) paragraff 37(1), (2)(a), (2)(b) a (3);

(v) paragraff 45(1), (2)(b), (2)(c), (2)(d) a (3); a

(vi) paragraff 46

(**1**) 2004 p.34.